CYNGOR CYMUNED Y FELINHELI

RHEOLAU A THELERAU Y FYNWENT YN LLANFAIRISGAER

1. Rhaid i rybudd am gladdedigaeth gael ei roi i'r Clerc, neu is-bwyllgor, dau ddiwrnod clir (heb gyfrif y Sûl) cyn yr angladd.

2. Ni chaniateir claddu heb gyflwyno'r dystysgrif i'r Clerc neu'r is-bwyllgor cyn diwrnod yr angladd.

3. Pan fydd Tystysgrif Meddyg yn gorchymun claddu ar unwaith, gall y Cyngor weithredu drwy wneud eithriad o Reol

4. Bydd giatiau dwbl y Fynwent ar glo yn barhaol, ac mae angen cael caniatad cyn mynediad.

5. Fel arfer 8' x 4' x 7' 9" o ddyfnder fydd maint bedd, a hynny ar gyfer dim mwy na thair claddedigaeth. Pe ddymunir claddu un neu ddau gorff yn unig yn y bedd, yna fe ganiateir i'r dyfnder fod yn llai ond rhaid gofalu fod o leiaf dwy droedfedd a hanner o bridd uwchlaw yr arch, a mesur i lawr o arwynebedd y tir.

6. Rhaid i'r defnyddiau gael ei dwyn i'r fynwent yn y fath fodd ag i beidio niweidio y rhodfeydd a'r tir. Mae'n ofynnol i bob defnydd gael ei glirio ar ol claddedigaeth.

7. Rhaid i bob gweddillion, ysgarthion a cherrig a adewir ar ôl unrhyw adeiladwaith gael ei symud ymaith gan y sawl a fu'n codi unrhyw, a rhaid i bob niwed a wneir gael ei atgyweirio'n ddioed gan pwy bynnag a fu'n gyfrifol amdano.

8. Cyn y rhoir caniatad i osod carreg fedd yn y fynwent rhaid i'r sawl a fydd yn gyfrifol am y gwaith anfon cynllun i'r Clerc neu'r is-bwyllgor o'r garreg a fwriedir ei gosod. Ni chaniateir cofebion sydd yn fwy na 3' o led a 4' o uchder a dylid ei gosod ar sylfaen diogel a wneir o garreg, llechen neu goncrid ac wedi ei ddiogelu a phin dur. Ni chaniateir 'kerbs' o gwmpas y beddi. Rhaid talu'r ffi angenrheidiol wrth gyflwyno'r cynlluniau.

9. Bydd plotiau ar gyfer gweddillion amlosgiad yn cael eu lleoli yn y rhan blaen o'r fynwent, ac ni chaniateir unrhyw feddrod mwy na 18" o uchder na 15" o led.

10. Ymgymerwyr angladdau fydd yn gyfrifol am agor a chau y beddau ac yn gyfrifol am gyflogi a diogelwch pob gweithiwr. Rhaid diogelu'r beddau nesaf wrth agor bedd newydd a gosod gorchfudd priodol ar y beddau hynny i osgoi niwed gan bridd.

11. Ymgymerwyr angladdau fydd yn gyfrifol am gyflenwi'r brics a'r gorchuddion ar gyfer y beddau. Rhaid i'r brics gael eu gosod yn eu lle gyda sment ac nid eu gadael yn rhydd ar unrhyw gyfrif. Rhaid i'r gorchuddion fod o "reinforced concrete" os nad o lechen.

12. Y beddau a'r cerrig beddau i gael eu cadw mewn trefn gan y meddianwyr, ac os neweidir bedd drwy gwympiad carreg fedd, bydd perchennog y garreg fedd yn gyfrifol am y niwed.

13. Disgwylir i bob teulu gadw'r beddau mewn trefn er cynorthwyo'r Cyngor i gadw'r fynwent yn daclus, ac i ymwelwyr ymddwyn yn barchus a boneddigaidd, a rhoddi bob ysbwriel yn y bin.

14. Y teulu fydd yn gyfrifol am dynnu'r carreg fedd cyn yr ail a'r trydydd agoriad ac i'w hail osod.

15. Ni chaniateir unrhyw wrthrych sefydlog ar wyneb y beddau, na phlannu coed na blodau am fod hyn yn rwystr pan yn torri gwair.

16. Rhaid i'r teulu sydd yn trefnu'r angladd wneud trefniadau gydag Offeiriad neu Weinidogion i wasanaethu yn yr angladd a bod yn gyfrifol am dalu am y gwasanaeth crefyddol.

17. Ni fydd y Cyngor yn gyfrifol am ddifrod i garreg fedd am unrhyw reswm.

18. Mae gan y Cyngor yr hawl o bryd i'w gilydd i wneud unrhyw newidiadau yn y trefniadau hyn.

CADEIRYDD:	Cynghorydd Siân Gwenllian	
CLERC:	Wynne Barton	01286 673036
IS-BWYLLGOR	Cynghorydd Pat White	01248 670292
	Cynghorydd Carolyn Pritchard	01248 671041
	Cynghorydd Iestyn Harris	01248 670566

Mabwysiadwyd y rheolau uchod yng nghyfarfod o'r Cyngor 11.11.08 ac yn effeithiol ar unwaith.

TELERAU Y GLADDFA

	TRIGOLION LLEOL	ERAILL
PLOT	**£90**	**£230**
CLADDEDIGAETH	**£75**	**£190**
AIL AGOR BEDD	**£50**	**£110**
PLOT AMLOSGI	**£60**	**£150**
CLADDU LLWCH	**£50**	**£150**
AIL AGOR PLOT LLWCH	**£50**	**£90**
HAWL I OSOD CARREG	**£40**	**£80**
AIL OSOD CARREG	**Dim Tâl**	**Dim Tâl**
CLADDEDIGAETH PLENTYN O DAN 16	**Dim Tâl**	**Dim Tâl**

FINANCIAL CONDITIONS

	PARISHONERS	NON PARISHONERS

PLOT	**£90**	**£230**
BURIAL	**£75**	**£190**
RE-OPENING	**£50**	**£110**
CREMATION	**£60**	**£150**
BURIAL OF ASHES	**£50**	**£150**
RE-OPENING	**£50**	**£90**
HEADSTONE	**£40**	**£80**
REINSTATEMENT	**No Fee**	**No Fee**
BURIAL OF CHILD UNDER 16	**No Fee**	**No Fee**